NICE National Institute for Health and Care Excellence

Etelcalcetide ar gyfer trin hyperparathyroidiaeth uwchradd

28 Mehefin 2017

Mae etelcalcetide (Parsabiv) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer gorbarathyroidedd uwch mewn oedolion ar ddialysis oherwydd clefyd cronig yr arennau, os nad yw cyffur o'r enw cinacalcet yn addas.

Os nad ydych yn gymwys i gael etelcalcetide, ond rydych eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Kidney Care UK, 01420 541424
- Kidney Research UK, 0300 303 1100
- Ffederasiwn Arennau Cenedlaethol, 0800 169 0936
- British Thyroid Foundation, 01423 810093
- Hypopara UK, 01342 316315

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2576-6

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights